# TAR CYNRADD

# GWYBODAETH AM YMUNO

*Cynnwys:*

Llythyr o groeso

Gwybodaeth Bwysig

Strwythur Rhaglen TAR Cynradd a Rhaglen TAR Uwchradd

Darllen a awgrymir cyn y rhaglen

**************************************************************
PWYSIG IAWN!
RYDYN NI'N EICH GWAHODD YN GYNNES IAWN I
SEREMONI AGORIADOL TREFN NEWYDD A CHYFFROUS
*PARTNERIAETH CAERDYDD ADDYSG GYCHWYNNOL I ATHRAWON*
AR FEDI 9fed 2019 AM 4.30
RHAGOR O FANYLION I DDOD!
**************************************************************

**TAR Cynradd 2019 - 2020**

Annwyl Fyfyriwr

Llongyfarchiadau ar ennill lle ar raglen TAR Cynradd 2019-2020 a diolch i chi am ddewis astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Estynnwn groeso cynnes i chi yn aelod o'r Rhaglen Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi **Ddydd Llun, 9 Medi 2019** a gobeithio y cewch flwyddyn fuddiol a llwyddiannus fel darpar athro.

Gaf i achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa bod y rhaglen yn un llawn amser ac yn un ddwys. Bydd ychydig wythnosau cyntaf y rhaglen yn llawn iawn a rhennir llawer o wybodaeth gyda chi. Am y rheswm hwn, hoffwn eich atgoffa y gallai rhan o'r rhaglen a gynhelir yn y brifysgol fel arfer fod rhwng 9am a 5pm. Cewch 60 Credyd ar lefel Meistr/lefel 7 am y rhan o'r rhaglen a gynhelir yn y brifysgol ac mae hyn yn golygu traean o gymhwyster Meistr. Cynhelir elfen profiad ysgol o'r rhaglen mewn gwahanol ysgolion a gallai hyn olygu teithiau hir. Sylwer y bydd disgwyl i chi gadw oriau tebyg i athrawon ac felly gallai fod disgwyl i chi gyrraedd yr ysgol mor gynnar ag 8.30 y bore. Eich cyfrifoldeb chi fydd gwneud y trefniadau angenrheidiol i ddelio ag unrhyw ymrwymiadau personol fel y gallwch gyrraedd yr ysgol mewn da bryd. Ni ellir gwarantu lleoliad yn agos at eich cartref. Os datgelir anabledd, gwneir addasiadau rhesymol yn seiliedig ar argymhellion Adran Anabledd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

I'n cynorthwyo i drefnu'ch lleoliadau ysgol a hefyd eich grwpiau Datblygu Cymraeg yn y Brifysgol, dewiswch y ddolen gyswllt isod a chwblhau'r ffurflen electronig erbyn **Dydd Gwener 14 Mehefin 2019** fan bellach**.**

CSESP: Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad Cyntaf TAR Cynradd 2019-2020

Hwn ydy'r pecyn gwybodaeth cyntaf o ddau y byddwch yn eu derbyn cyn i'r rhaglen ddechrau. Bydd yr ail becyn ar gael i chi ar ddechrau Awst. Ym mhecyn Awst bydd gwybodaeth am y gweithdrefnau ymrestru ar-lein yn ogystal â braslun o drefniadau wythnos gyntaf y rhaglen.

Mae'r dogfennau amgaeedig yn y pecyn hwn yn cynnig gwybodaeth ar y meysydd canlynol:

(a) Gwybodaeth Bwysig
(b) Strwythur Rhaglen TAR Cynradd ac Uwchradd
(c) Darllen a Awgrymir Cyn y Rhaglen

Edrychaf ymlaen at eich gweld Ddydd Llun, Medi 9fed.

Dymuniadau gorau

**Sian Davies-Barnes**
**Cyfarwyddwraig Rhaglen TAR Cynradd**
**029 2041 6554**
**sdavies-barnes@cardiffmet.ac.uk**

# GWYBODAETH BWYSIG

- Os nad ydych yn bwriadu derbyn y lle a gynigiwyd i chi ar y rhaglen, am ba bynnag reswm, mae'n bwysig eich bod yn **hysbysu'r tiwtor perthnasol neu'r swyddfa dderbyn cyn gynted â phosib**, er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr eraill. Yn ddelfrydolo, ni ddylir hyn fod yn hwyrach nag **Awst 23ain 2019**.

- Bydd angen i chi gysylltu â'ch Cyllid Myfyrwyr perthnasol, sy'n ddibynnol ar ble yr ydych yn byw ynglŷn â thaliadau ffioedd y rhaglen a chwblhau'r ffurflen PN1. Gellir darllen rhagor o wybodaeth am y Cyllid Myfyrwyr ar ein gwefan: http://www.cardiffmet.ac.uk/finance ac rydym yn argymell eich bod yn darllen y wybodaeth hon a chynnig am gymorth, os nad ydych wedi gwneud yn barod. Byddwch yn derbyn cadarnhad am y maint o gyfraniad y byddwch yn ei dderbyn tuag at eich ffioedd a bydd y Brifysgol hefyd y derbyn cadarnhad o hyn unwaith y byddwch wedi cofrestru.

- Mae angen gwiriadau heddlu boddhaol gan bob ymgeisydd ar gyfer cyrsiau TAR, ac ni fydd ymgeiswyr yn gallu dechrau'r rhaglen os nad ydynt yn gwneud hyn, oherwydd ni fyddech yn gallu dechrau ar elfen leoliad y rhaglen. Dylech fod wedi cael gwybodaeth am hyn yn y llythyr gwreiddiol yn cynnig lle ar y rhaglen i chi. Os nad ydych wedi cyflawni'r weithdrefn hon, cysylltwch â'r Swyddfa Dderbyn am ffurflen gais cyn gynted â phosib ar 029 2041 6010.

- Os yw eich cynnig gan Hyfforddiant Athrawon UCAS yn amodol ar unrhyw gymwysterau academaidd, bydd rhaid gyrru'r rhain i'r Uned Derbyniadau. Bydd angen profi unrhyw gymwysterau gan gynnwys TGAU Saesneg / Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, Lefel A Gradd C mewn pwnc cwricwlwm a gradd Anrhydedd 2:2 neu uwch. Bydd angen gyrru eich canlyniadau i'r **Adran Derbyniadau, Cyfathrebu, Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Rhodfa'r Gorllewin, CAERDYDD CF5 2YB**

- Os ydych yn newid eich **cyfeiriad neu eich e-bost** rhwng ymgeisio a dechrau'r rhaglen, rhowch wybod i'r Hyfforddiant Athrawon UCAS **a'r** Swyddfa Dderbyn ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd fel y gellir diweddaru eich cofnodion. Os nad ydym yn gwybod eich **manylion newydd**, ni fyddwch yn derbyn gwybodaeth bwysig am y rhaglen.

- Am wybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am lety (Fflatiau/Fflatiau Un Ystafell/Neuaddau Preswyl), cysylltwch â'r Swyddog Llety ar 029 2041 6188.

- Bydd rhaid cofrestru drwy'r Cyngor Addysgu Cyffredinol priodol cyn i chi gael addysgu. Bydd ffi ar gyfer hyn.
  Os ydych yn bwriadu gweithio yng Nghymru ar ôl i chi gymhwyso, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno ffurflen gais a'r ffi cofrestru drwy'r Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru a fydd yn ymweld â'r sefydliad yn ystod y rhaglen i'ch helpu gyda'r broses hon.

**Lisa Bowen**
**Pennaeth Derbyniadau**
**Marchnata a Chysylltiadau Allanol**

# Strwythur Rhaglenni TAR Cynradd a TAR Uwchradd

| Wythnos yn dechrau | Wythnos prifysgol | Wythnos TAR | LLUN | MAWRTH | MERCHER | IAU | GWENER |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 09.09.19 | 7 | 1 | | | | | |
| 16.09.19 | 8 | 2 | | | | | |
| 23.09.19 | 9 | 3 | | | | | |
| 30.09.19 | 10 | 4 | | | | | |
| 07.10.19 | 11 | 5 | | | | | |
| 14.10.19 | 12 | 6 | | | | | |
| 21.10.19 | 13 | 7 | | | | | |
| 28.10.19 | 14 | 8 | Astudiaeth dan gyfarwyddyd | | | | |
| 04.11.19 | 15 | 9 | | | | | |
| 11.11.19 | 16 | 10 | | | | | |
| 18.11.19 | 17 | 11 | | | | | |
| 25.11.19 | 18 | 12 | | | | | |
| 02.12.19 | 19 | 13 | | | | | |
| 09.12.19 | 20 | 14 | | | | | |
| 16.12.19 | 21 | 15 | | | | | |
| 23.12.19 | 22 | | GWYLIAU'R NADOLIG | | | | |
| 30.12.19 | 23 | | GWYLIAU'R NADOLIG | | | | |
| 06.01.20 | 24 | 16 | | | | | |
| 13.01.20 | 25 | 17 | | | | | |
| 20.01.20 | 26 | 18 | | | | | |
| 27.01.20 | 27 | 19 | | | | | |
| 03.02.20 | 28 | 20 | | | | | |
| 10.02.20 | 29 | 21 | | | | | |
| 17.02.20 | 30 | 22 | Astudiaeth dan gyfarwyddyd | | | | |
| 24.02.20 | 31 | 23 | | | | | |
| 02.03.20 | 32 | 24 | | | | | |
| 09.03.20 | 33 | 25 | | | | | |
| 16.03.20 | 34 | 26 | | | | | |
| 23.03.20 | 35 | 27 | | | | | |
| 30.03.20 | 36 | 28 | | | | | |
| 06.04.20 | 37 | | GWYLIAU'R PASG | | | | |
| 13.04.20 | 38 | | GWYLIAU'R PASG | | | | |
| 20.04.20 | 39 | 29 | | | | | |
| 27.04.20 | 40 | 30 | | | | | |
| 04.05.20 | 41 | 31 | GŴYL Y BANC | | | | |
| 11.05.20 | 42 | 32 | | | | | |
| 18.05.20 | 43 | 33 | C | C | C | C | C |
| 25.05.20 | 44 | 34 | Astudiaeth dan gyfarwyddyd | | | | |
| 01.06.20 | 45 | 35 | C | C | C | C | C |
| 08.06.20 | 46 | 36 | C | C | C | C | C |
| 15.06.20 | 47 | 37 | | | | | BWRDD ARHOLI |

Allwedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diwrnod hyfforddi a arweinir gan y Brifysgol | | Diwrnod ysgol |
| | Diwrnod hyfforddi a arweinir gan ysgolion | C | Diwrnod cyfoethogi |

## AWGRYM O'R GWAITH DARLLEN CYN Y RHAGLEN

Byddai'r llyfrau canlynol yn gweithredu fel deunydd darllen cefndirol ardderchog, i roi sylfaen cadarn i chi gychwyn ar y rhaglen.

Cremin, T. and Arthur, J. (2018) *Learning to Teach in the Primary School*. 4ydd argraffiad. Oxon: Routledge.

Holmes, E. (2018) *A Practical Guide to Teacher Wellbeing*. Llundain: Sage Publications Limited

Pollard, A., Black-Hawkins, K. and Hodges, G. C. (2018) *Reflective Teaching in Schools*. 5ed argraffiad Llundain: Bloomsbury Academic.

Rogers, B. (2015) *Classroom Behaviour: A Practical Guide to Effective Teaching, Behaviour Management & Colleague Support*. 4ydd argraffiad Llundain: Sage Publications Limited.

Taber, K. (2013) *Classroom Based Research and Evidence Based Practice: An Introduction.* 2il argraffiad Llundain: Sage Publications Limited.

Bydd y modiwl sydd wedi'i leoli yn y brifysgol fyddwch chi'n ei astudio yn un sydd ar lefel Meistr. Byddai felly'n fuddiol i chi fod yn gyfarwydd â'r testunau canlynol:

Sewell, K. (ed) (2012) *Doing Your PGCE at M-Level: A Guide For Students*. Llundain: Sage Publications Limited.

Bolton, G. and Delderfield, R. (2018) *Reflective Practice: Writing and Professional Development*. 5ed argraffiad Llundain: Sage Publications Limited.

Fel y gwyddoch, o bosib, mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn newid. Rydyn ni felly'n argymell y canlynol i chi:

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures / Dyfodol Llwyddiannus.* Ar gael yn Gymraeg ar:
https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf
Ar gael (yn Saesneg) ar: https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf

Dylech gael copïau o ddogfennau cyfredol y cwricwlwm sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion a cheisio bod yn gyfarwydd â'r rhain. Dyma ydy dogfennau Cwricwlwm Cymru 2008 ac maen nhw ar gael yn Gymraeg ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/ ac yn Saesneg ar: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales-2008/

Cynghorir chi hefyd i edrych ar y dogfennau o'r 'Cwricwlwm drafft i Gymru' fydd yn orfodol yng Nghymru yn 2022. Dyma'r ddolen i'r dogfennau hyn:
*(Cymraeg):* https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022
*(Saesneg)*: https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022

# SEWCTET

**South East Wales Centre for Teacher Education and Training**
**Canolfan De Ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg A Hyfforddiant Athrawon**

Dyddiad: 1 Mai 2019

Ffôn: 02920 417251

At sylw: Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg: Gloywi Iaith!

Annwyl fyfyriwr,

Llongyfarchiadau mawr ar gael eich derbyn ar y rhaglen TAR yma ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd 2017/18. Mae'n siwr eich bod yn edrych ymlaen at ddechrau ar y rhaglen ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ddwy agwedd fydd yn eich helpu i baratoi a dechrau meddwl am eich sgiliau Cymraeg.

1. **Cyfarfod Haf: Mehefin 21, 10.00-1.00, campws Cyncoed.**

Rydym yn ymwybodol iawn y bydd llawer ohonoch heb siarad Cymraeg ers gadael yr ysgol, rhai'n defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol, ac eraill yn dilyn gradd trwy'r Gymraeg neu'n byw trwy'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae gwahoddiad cynnes i bawb ddod at ei gilydd cyn i'r cwrs ddechrau, a manteisio ar y cyfle i gwrdd â myfyrwyr eraill. O ganlyniad, byddwn yn cynnig cyfarfod byr cyn y gwyliau, yn cynnal gweithgareddau anffurfiol, a thrafod ffyrdd gwahanol o'ch helpu i arfer a gloywi eich iaith yn barod ar gyfer mis Medi. Byddwch yn cwrdd â myfyrwyr eraill a'r tiwtoriaid Cymraeg, dysgu mwy am ein darpariaeth iaith y flwyddyn nesa, ac ymgymryd a rhai tasgau iaith ysgafn.

**Os ydych yn gallu dod i'r cyfarfod Haf yma, ebostiwch askadmissions@cardiffmet.ac.uk i gadarnhau lle mor fuan â phosibl. Yna, cwrddwn â chi wrth y brif dderbynfa, campws Cyncoed cyn 10.00 fore Gwener, Mehefin 21. Diolch.**

2. **Gloywi Iaith: Awgrymiadau Defnyddiol.**

Mae'r Llywodraeth yn rhoi bri mawr ar bwysigrwydd safonau iaith ac felly, i'r perwyl hwnnw, hoffem awgrymu eich bod yn manteisio ar yr ychydig fisoedd nesaf, cyn dechrau ar y rhaglen, er mwyn ymgymryd â'r canlynol:

- Darllen yn gyffredinol yn y Gymraeg. Gallwch ystyried deunydd fel papurau newydd, nofelau, y we, Golwg, deunydd pynciol neu addysg yn y Gymraeg


| Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Fetropolitan Caerydd |
|---|---|
| Cyncoed Campus, Cyncoed Road, Cardiff, CF23 6XD | Campws Cyncoed, Heol Cyncoed, Caerdydd CF23 6XD |
| Partnership Office | Swyddfa Gweinyddiaeth Myfyrwyr a Phartneriaethau |
| Tel: 029 20416765 | Ffôn: 029 20416765 |
| Fax: 029 20416948 | Ffacs: 029 20416948 |
| Email: csepartnerships@cardiffmet.ac.uk | Ebost: csepartnerships@cardiffmet.ac.uk |

- Gwrando ar Radio Cymru a gwylio S4C. Lawrlwytho ap 'Cymru Fyw' (BBC Cymru) ar eich ffôn er mwyn ymgyfarwyddo gyda thermau a geira gyfredol.
- Lawrlwytho geiriaduron ar lein ar eich ffon megis ap geiryn a geiriadur. Lawrlwytho Cysill / Cysgair ar eich cyfrifiadur.
- Cwblhau ymarferion ieithyddol ar-lein: https://llyfrgell.porth.ac.uk/library/gloywi-iaith
- Bydd rhai ohonoch yn cyflwyno gwaith academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg tra ar y rhaglen. Awgrymwn eich bod yn ymgyfarwyddo gyda darllen gwaith academaidd a ysgrifenwyd yn Gymraeg er mwyn datblygu yr arddull ysgrifennu priodol. Mae cyfnodolyn Gwerddon yn cyhoeddi gwaith academaidd o safon uchel a hynny yn Gymraeg. Awgrymwn eich bod yn pori drwy Gwerddon a darllen ambell i erthygl sy'n apelio atoch

Ond yn fwy na dim, hoffem bwysleisio pa mor bwysig yw cymdeithasu drwy gyfwng y Gymraeg. Oes nad ydych chi eisoes yn siarad Cymraeg gyda'ch teulu a'ch ffrindiau, sydd yn gallu'r iaith, cesiwch newid hynny ar unwaith. Efallai y byddwch eisoes wedi cofrestru gyda Menter Iaith Caerdydd er mwyn cael gwybod am y digwyddiadau sy'n debyg o apelio atoch chi. Beth am ddod i Tafwyl neu hyd yn oed wirfoddoli i stiwardio yno?

I orffen, bydd lefelau rhuglder amrywiol gan bawb yn y grwpiau cyfrwng Cymraeg ond ein bwriad ydy eich cefnogi a'ch cynorthwyo i ddatblygu eich sgiliau yn ystod y flwyddyn. Ein gobaith ydy datblygu eich sgiliau chi er mwyn i chi fod mewn sefyllfa gref i ddatblygu sgiliau ieithyddol y genhedlaeth nesaf o blant yn y sector Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn y cyfarfod Haf, Mehefin 21, am 10.00.

Cofion cynnes iawn,

Dr Ashley Beard TAR Uwchradd
Sioned Dafydd TAR Cynradd
Dr Gina Morgan TAR Uwchradd
Kris Sobol TAR Cynradd.

*Tra bod pob ymdrech resymol wedi'i gwneud i sicrhau bod pob gosodiad yn gywir yn y geirda hwn, ni fydd y canolwr na'r brifysgol yn gyfrifol am unrhyw gangymeriadau, hepgoriadau neu gamdybiaethau a gynhwysir yn y geirda.*

Cardiff Metropolitan University
Cyncoed Campus, Cyncoed Road, Cardiff, CF23 6XD
Partnership Office
Tel: 029 20416765
Fax: 029 20416948
Email: csepartnerships@cardiffmet.ac.uk

Prifysgol Fetropolitan Caerydd
Campws Cyncoed, Heol Cyncoed, Caerdydd CF23 6XD
Swyddfa Gweinyddiaeth Myfyrwyr a Phartneriaethau
Ffôn: 029 20416765
Ffacs: 029 20416948
Ebost: csepartnerships@cardiffmet.ac.uk